

## Trac 1: Maes parcio Tyddyn Gwladys

*“Dechreuais i weithio ym mil wyth wyth wyth gyda llawer o fechgyn o dan bymtheg oed. Roedden ni’n arfer cyfarfod ar y bont am dri o’r gloch ar fore Llun gyda gwerth wythnos o fwyd yn ein waledi gwyn, gan gynnwys torth gartref fawr. Bydden ni’n cerdded wyth milltir a hanner i ddechrau am saith o’r gloch ac roedden ni’n arfer cael ychydig funudau o seibiant hanner ffordd.*

*Unwaith, fe welon ni asyn yn dod i’n cyfarfod ni ar ei ben ei hun a gweld bod tri o’r mwynwyr wedi mynd â’r asyn i gario’u waledi hanner ffordd a’u bod wedi’i droi’n ôl ar ei ben ei hun”*

Er mai prin yw’r atgofion personol sy’n bodoli gan y dynion a oedd yn gweithio yn y diwydiannau ar hyd y rhan hon o’r afon yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, fe wnaeth Hugh Pugh, fforman yn y gloddfa leol, gofnodi ychydig o nodiadau am ei gyfnod yma, gan gynnwys ei daith wythnosol i’r gwaith.

*“Doedd dim ffordd o Dyddyn Gwladys i’r gloddfa, dim ond llwybr a phont droed trwy’r gweithfeydd powdwr a oedd yn gweithio gan wneud powdwr du ar y llwybr troed ar hyd yr afon.”*

Yn ystod pedair blynedd hynod lawn, agorwyd gweithfeydd powdwr gwn a oedd yn weithredol nes iddynt gau ym mil wyth naw dau. Yn ystod ein taith, byddwn yn darganfod sut oedd y powdwr gwn hwn yn cael ei wneud, ar gyfer beth yr oedd yn cael ei ddefnyddio a beth oedd yn digwydd pan oedd pethau’n mynd o chwith.

Adeilion yw llawer o’r adeiladau ar hyd y llwybr erbyn hyn neu maent wedi diflannu’n gyfan gwbl, ond gyda chymorth atgofion Hugh, gallwn ni ddechrau ailadeiladu un o’r unig weithfeydd powdwr gwn i gael eu hadeiladu yng Nghymru, yn ein meddyliau o leiaf.

Dilynwch y llwybr glas y mae’r ffordd wedi’i farcio arno, ac ewch at bostyn dau wrth fynedfa’r gweithfeydd powdwr, sy’n lleoliad ar gyfer llety gwyliau yng Nglyn Rhedynog erbyn hyn.

Arhoswch ar y llwybr y mae’r ffordd wedi’i farcio arno, oherwydd gall yr hen adeiladau a’r gweithfeydd fod yn anniogel.

[Tua 100 eiliad]

## Trac 2: Bwthyn Mostyn – gadewch eich tybaco a'ch matsis wrth y giât

Bwthyn Mostyn yw'r adeilad uwch eich pen, sy'n rhan o safle llety gwyliau Glyn Rhedynog erbyn hyn. Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, roedd y safle'n darparu llety ar gyfer yr uwch weithwyr.

Er mai ychydig iawn y mae'r adeilad *hwn* wedi newid dros y blynyddoedd, roedd yr olygfa yma yn edrych ac yn swnio'n wahanol iawn. Nid yw'r swyddfeydd, y gweithdai a'r stablau gwreiddiol yn sefyll mwyach, ond byddai'r lle wedi bod yn byrlymu â gweithgarwch. Byddai gwaith cowper, lle'r oedd y casgenni i storio'r defnyddiau ffrwydrol yn cael eu gwneud, wedi bod yma hefyd, ynghyd â gofaint a siop gwaith saer.

Roedd tai diogel, lle'r oedd y cam cyntaf yn y broses o gynhyrchu powdwr gwn yn digwydd, wedi'u lleoli yma hefyd; roedd cynhwysion crai yn cael eu puro a'u malu'n bowdwr mân. Credid bod yr adeiladau hyn yn 'ddiogel' oherwydd nad oedd y mwynau wedi cael eu cymysgu i gynhyrchu eu partneriaeth ffrwydrol.

Caiff powdwr gwn ei wneud o dri chynhwysyn, sef potasiwm nitrad – sy'n cael ei adnabod fel solpitar – siarcol a sylffwr. Tan yr ail ganrif ar bymtheg, roedd y rhan fwyaf o'r solpitar yn cael ei buro o faw colomennod, wedi'i gasglu yn ôl gorchymyn brenhinol o bob cwr o'r wlad! Fodd bynnag, yn ddiweddarach, roedd yn cael ei fewnforio o'r Eidal, yr India a Chile ac yn cael ei gludo yma ar gyfer y gweithwyr, fel y dyn dienw hwn, i brosesu...

*“Roedd fy ngwaith i'n cynnwys puro'r solpitar. Deunydd organig wedi pydru yw solpitar, ac rydyn ni'n ei buro trwy ei ferwi mewn dŵr. Wedyn, rydyn ni'n glanhau unrhyw sorod oddi ar y top a gadael i'r halen ailgrisialu, ac yn ystod y broses hon, caiff y gymysgedd ei throï i ffurfio blawd mân.”*

Roedd sylffwr yn dod o ardaloedd folcanig fel Sisili, a dim ond siarcol oedd yn cael ei wneud yn lleol, mewn silindrau haearn, gan ddefnyddio'r cyflenwad helaeth o bren lleol. Roedd cyflenwad helaeth o adnodd gwerthfawr arall yma hefyd. Ydych chi'n gallu dyfalu beth yw hwn? Gwrandewch. Os na, cewch wybod nes ymlaen ar y llwybr.

Rydyn ni nawr yn mynd i ddilyn yn fras linell yr hen ffordd dramiau a oedd yn cysylltu rhwng yr holl adeiladau ac yn cael ei defnyddio i gludo'r deunyddiau crai a'r powdwr gwn. Wrth y tair arhosfan ganlynol, byddwn yn ymweld â'r tai perygl, lle'r oedd y deunyddiau crai yn cael eu cyfuno – o'r lle hwn ymlaen, gallai canlyniadau peryglus ddigwydd yn sgil un symudiad anghywir, a dyma'n wir oedd yn digwydd. Nid oedd yn syndod o gwbl felly

Sgript Tyddyn Gwladys \_v1

y byddai'r gweithwyr yn newid eu dillad yma wrth fynedfa'r porthdy, ac yn bwysicach, yn gadael eu tybaco a'u matsis ar ôl!

[Tua 150 eiliad]

### **Trac 3: Y tŷ gronynnu – gadewch i ni wneud roc a rôl**

Er mwyn eich cadw ar flaenau eich traed, rydym wedi neidio rhai o'r prosesau cynhyrchu i'n harbed rhag dod yn ôl i'r lle hwn yn ddiweddarach. Gweddillion y tŷ gronynnu yw'r adeilad gwag ar eich ochr chwith – rhan bwysig iawn o'r broses, yn enwedig ar gyfer y rheiny a oedd yn gweithio yma.

Roedd 'gronynnu' yn ddatblygiad syml, ond effeithiol wrth gynhyrchu powdwr gwn a oedd yn cynyddu dibynadwyedd yn fawr trwy ronynnu 'dalennau' o bowdwr gwn tebyg i lechi. Byddwn yn clywed nawr sut oedd y dalennau hyn yn cael eu gwneud wrth arhosfan pump.

Ond sut ydym ni'n gwybod bod gronynnu yn arfer digwydd yma? Edrychwch yn agosach ar y waliau mewnol; ceir tystiolaeth gref mai tŷ perygl oedd hwn. Ydych chi'n sylwi ar y pren yn y cyrsiau brics, ac yn bwysicach yr hoelion? Hoelion copr oedd y rhain.

Nid yw copr, yn wahanol i haearn – y deunydd mwyaf cyffredin ar gyfer gwneud hoelion – yn creu gwreichion, sydd ym myd cyfnewidiol powdwr gwn, o fantais fawr a dweud y lleiaf! Roedd yr hoelion copr yn cael eu defnyddio i osod paneli pren ar y gwaith brics i leihau ymhellach y tebygolrwydd o ffrwydriad enfawr!

Rydyn ni hefyd yn gallu dweud yr arferai'r adeilad gael grym dŵr. Caiff hyn ei ddangos gan y siambr i'r de, neu ar ochr chwith yr adeilad lle'r oedd olwyn ddŵr, neu dyrbin, sy'n fwy tebygol, lle'r oedd dŵr yn cael ei bibellu o gafn, sianel yn cludo dŵr, gerllaw.

Roedd y dalennau o bowdwr gwn yn cael eu pasio trwy roler danheddog – a oedd o fewn y bwâu bric addurnol – i ffurfio gronynnau, a oedd wedyn yn cael eu hidlo yn ronynnau o bowdwr gwn maint arferol.

Pan fyddwch yn barod i adael y felin ronynnu, cyfrifwch faint o gamau y mae'n cymryd i chi gyrraedd postyn marcio pedwar.

[Tua 120 eiliad]

#### **Trac 4: Y tŷ cymysgu – pedwar deg pump yw’r rhif hud**

Pan adeiladwyd y gweithfeydd powdwr gwn, tybid bod pedwar deg pum metr yn bellter diogel rhwng pob adeilad pe bai ffrwydrad yn digwydd. Does dim amheuaeth y byddai’r adeiladau hyn wedi bod yn llawer pellach ar wahân heddiw, mewn byd sydd mor ymwybodol o iechyd a diogelwch!

Felly faint o gamau gymerodd i chi gyrraedd yma, Naw deg? Cant? Beth bynnag yw’ch ateb, rydych chi wedi cerdded tua naw deg metr. Felly hanner ffordd i’r lle hwn, fe wnaethoch basio gweddillion adeilad arall er mai ychydig o dystiolaeth sydd ar ôl ohono heddiw.

Ond gadewch i ni droi ein sylw at yr adeilad ar y chwith. Hwn oedd un o’r adeiladau mwyaf ar y safle, a gloddiwyd allan o’r llethr ac sy’n cynnwys waliau trwchus iawn.

Ar ôl cael eu paratoi a’u puro wrth arhosfan dau; roedd y deunyddiau crai yn cael eu cludo yma a’u pwyso i’w cyfrannau priodol cyn cymysgu. Roedd tri chwarter o’r gymysgedd yn cynnwys solpitar, pymtheg y cant yn cynnwys siarcol a’r deg y cant arall yn cynnwys sylffwr.

Roedd y cynhwysion yn cael eu cymysgu mewn drwm, a oedd yn debygol o gael ei bweru gan dyrbin dŵr, gydag ychydig o ddŵr yn cael ei ychwanegu i greu ‘powdwr gwyrdd’ o gysondeb toes fisged. Roedd yn awr yn barod ar gyfer y weithred fwyaf peryglus yn y felin falu – ein harhosfan nesaf.

Ond cyn i ni symud, edrychwch i’r dde. Mae’n siŵr mai dyma yw’r llecyn gorau i weld Rhaeadr Mawddach a chydliwiad dwy afon a oedd yn helpu pweru’r diwydiannau yma.

[Tua 110 eiliad]

### **Trac 5: Y felin falu – does unman yn debyg ar gyfer gwreichion**

Heddiw, dim ond chwynu rhaeadr arall, Pistyll Cain, a glywir yma, a'r dŵr o'r afon hon oedd yn pweru'r gweithfeydd powdwr gwn. Ond, yn ei anterth, byddai sŵn anferthol wedi dod o'r adeilad hwn, ar wahân i'r ffrwydradau.

Yn yr adeilad hir hwn, roedd y gymysgedd yn cael ei gwlychu a'i gosod ymhellach rhwng olwynion haearn mawr, o'r enw rhedwyr ymylol, i greu 'cacen y felin'. Roedd y rhan hon o'r broses gynhyrchu mor beryglus nes bod y gwneuthurwyr yn cael eu gwahardd rhag malu mwy na phedwar deg dau pwys ar unwaith, sef pwysau cyfartalog plentyn pedair oed.

Mae'r felin yn cynnwys chwe ystafell sgwâr, pob un gyda'u waliau talcen yn gyfan. Ar lawr pob ystafell, mae agoriad yn dangos twnnel brics bwaog oddi tanodd. Yma, roedd siafft wedi'i phweru gan olwyn ddŵr ar ochr ogleddol yr adeilad, yn gyrru'r rhedwyr ymylol.

Byddwch yn sylwi nad oes unrhyw dystiolaeth o do'r felin na'r wal sydd agosaf at y llwybr. Roedd y rhain wedi'u hadeiladu o bren pwysau ysgafn, felly pan oedd ffrwydrad – ac roedd hynny yn digwydd – byddai'r tair wal soled yn aros yn gymharol gyfan ond byddai'r strwythur pwysau ysgafn yn dymchwel. Gwae unrhyw un a oedd yn cerdded ar yr ochr hwn o'r adeilad ar y seithfed ar hugain o Orffennaf mil wyth naw un.

Ar y bore penodol hwn, fe wnaeth ffrwydrad rwygo rhannau o'r to a'r wal flaen i ffwrdd. Fodd bynnag, fe wnaeth dyfais ddiogelwch gywrain atal y tân rhag lledaenu; roedd dyfais wlychu, yn cynnwys tanciau dŵr yn cydbwysu ar y wal wannach, yn cael ei throï dros y rhedwyr ymylol i ddiffodd y fflamau.

Yn ffodus hefyd, roedd dynion y felin wedi mynd i'r tŷ gwyllo diogel; adeilad bach i'r dde o'r llwybr.

Ond ar ddiwrnod arferol, roedd cacen y felin yn cael ei hanfon i'r ystafell wasgu, bedwar deg pum metr yn ôl i lawr y llwybr. Nid dyma ble'r oedd mawrion y cyfryngau'n gweithio, ond ble'r oedd y gacen yn cael ei thorri yn lymphiau bach a'i gwasgu yn ddalennau tebyg i lechi yn barod ar gyfer ei ronynnau – y broses a welon ni wrth arhosfan tri.

Wrth i chi fynd tuag at yr arhosfan nesaf, arhoswch ar y bont i weld Pistyll y Gain yn ei holl ogoniant. Fe wnaeth dŵr llifogydd yma ym mis Gorffennaf dwy fil ac un gyffwrdd â gwaelod y bont, ac mae boncyff coeden yn sownd oddi tanodd i'w weld o hyd.

## Sgript Tyddyn Gwladys \_v1

Gallwch weld yn ôl pŵer a maint y dŵr, yn enwedig yn ystod tywydd glawog, pam oedd yr afon yn cael ei defnyddio fel ffynhonnell bŵer ar gyfer y diwydiannau oedd wedi'u lleoli yn y dyffryn.

[Tua 160 eiliad]

## Trac 6: Melin Gwynfynydd

Ydych chi wedi bod yn meddwl tybed ar gyfer beth yr oedd yr holl bowdwr gwn hwn yn cael ei ddefnyddio? Rhoddodd Hugh Pugh ychydig o gliw ar ddechrau'r llwybr sain pan ddywedodd nad oedd unrhyw ffordd o Dyddyn Gwladys i'r gloddfa. Ond beth oedden nhw'n ei gloddio?

Darganfuwyd aur yn y bryniau hyn mor gynnar â mil wyth pedwar pedwar, ond yn sgil sawl camgychwyniad, methwyd cael unrhyw gyfoeth parchus ohono. Fodd bynnag, talodd dyfalbarhad ar ei ganfed yn y diwedd ym mil wyth wyth wyth pan ddaeth William Pritchard Morgan, perchennog damweiniol mewn gwirionedd, o hyd i aur yn llythrennol – bron i naw mil owns ohono! Roedd hyn gyfwerth â miliynau o bunnoedd yn arian heddiw.

Roedd Pritchard Morgan wedi cael ei berswadio i osod offer yn y gloddfa rai blynyddoedd yn gynharach, ond pan fethodd y perchennog blaenorol godi arian i'w dalu, cymerodd Pritchard Morgan yr awenau.

Ei orchest nesaf oedd gwerthu'r gloddfa yn anterth ei chynhyrchiant, dim ond blwyddyn yn ddiweddarach. Erbyn mil wyth naw dim, dim ond dau gant owns oedd yn cael eu cynhyrchu a daeth y cwmni i ben. Ond cafwyd mwy o lwyddiant yn ddiweddarach.

Yn ei gyflwr naturiol, dywedir bod yr aur yn rhedeg trwy'r graig fel 'bacwn brith'. Fel fforman yng nghloddfa Aur Gwynfynydd, roedd Hugh Pugh yn gyfarwydd iawn â'r hyn a ddigwyddodd iddo pan gyrhaedda'r felin. Ysgrifennodd:

*“Roedd y pŵer yn dod o dyrbinau dŵr, dau foeler ac injans stêm. Roedd y mwyn yn cael ei daflu ar y sgrin; y cŵrs yn mynd i'r ddau dorwr cerrig a'i falu i fod yn un modfedd a hanner i Bing[?] oddi tanodd a oedd yn dal miloedd o dunelli o gyflenwad ar gyfer y sifft nos. Roedd torwyr cerrig dim ond yn gweithio yn ystod y dydd.*

*Roedd y mwyn yn cael ei falu nes ei fod yn bowdwr a'i olchi gyda dŵr trwy sgriniau mân iawn ar y byrddau lle'r oedd platiau copr wedi'u gorchuddio mewn arian byw. Wrth i'r aur basio dros y byrddau, byddai'r aur yn glynu wrth yr arian byw.*

*Roedden ni'n galw hyn yn amalgam. (Roedd yn cael) ei gasglu ddwywaith y dydd a'i roi mewn lledrau golchi. Roedd yr olewau'n cael eu gwasgu allan a'u gwneud yn beli tua dwy fodfedd a hanner, tua thri deg pump owns a thraean ohono'n aur. Roedd yn cael ei roi yn y coffor tan ddiwedd y mis.*

*Byddai'r amalgam yn cael ei gymryd at y profwr lle byddai'n cael ei roi mewn cylchdröwr i gael yr arian o'r aur – yr arian i gael ei ddefnyddio eto. Byddai'r aur wedyn yn cael ei roi mewn tawddlestr graffit i gael ei doddi a'i dywallt allan i fowld*

## Sgript Tyddyn Gwladys \_v1

*ingot. Pan oedd yr aur wedi oeri, gellid ei dynnu allan. Roedd y rheolwr yn ei bwysu  
ac roedd wedyn yn mynd i'r banc."*

[Tua 160 eiliad]

### **Trac 7: Y broses cynhyrchu powdwr gwn ymhen munud**

Rydym ni'n mynd yn ôl yn awr i olrhain y broses ar gyfer cynhyrchu powdwr gwn. Ac mae darnau olaf y jig-so yma o'n blaenau. I'ch atgoffa, caiff y cynhwysion crai eu puro a'u troi'n bowdwr cyn eu cymysgu. Nesaf, caiff hylif ei ychwanegu a'i ffurfio i wneud 'cacen y felin', lle caiff wedyn ei dorri'n lymphiau llai a'i wasgu i fod yn ddalennau tebyg i lechi. Ar ôl i'r dalennau gael eu 'gronynnu', credir eu bod yn cael eu cludo i lawr i adeilad ar lan yr afon, a gwelir ei sylfeini ymhellach i lawr ymyl y dŵr ar yr ochr dde. Yma, roedd y gronynnau'n cael eu hidlo i gael gwared ar lwch rhydd a'u llyfnhau mewn casgenni taflu.

Cyn i ni edrych ar yr adeilad gwag ar lan yr afon gyferbyn o'n blaenau, sy'n cael ei adnabod fel yr arfdy, edrychwch yn syth uwch ei ben a thua hanner ffordd i'r gorwel. Credid mai'r stôf oedd yr adeilad a safai yma, sydd wedi'i ddinistrio'n llwyr erbyn hyn, a dyma ble'r oedd y powdwr gwn yn cael ei sychu'n drylwyr. Oddi yma, roedd yn cael ei bacio mewn casgenni, ei gludo i'r arfdy a'i storio. Roedd waliau'r adeilad hwn yn fetr o drwch ac roedd y to wedi'i wneud o fowt faril mewn brics, wedi'i orchuddio â llechi – dyluniad a oedd wedi'i fwriadu i amddiffyn y cynnwys rhag llosgi pe bai'r adeiladau eraill yn ffrwydro.

Credir y gallai ugain tunnell o bowdwr gwn fod wedi cael eu storio yma ar unwaith – digon i achosi ton o ysgytwad trwy'r dyffryn, a thu hwnt!

Ewch ymlaen i'r arhosfan nesaf nawr i weld drosoch chi'ch hun ble'r oedd bywyd o dan y ddaear yn dechrau i'r dynion yma.

[Tua 90 eiliad]

### **Trac 8: Cloddfeydd sy'n addas ar gyfer Brenin a Brenhines**

Mae ceuffordd ar eich ochr chwith, mynedfa lorweddol i un o'r cloddfeydd niferus yn yr ardal hon. Mae'r geuffordd hon yn fyr iawn, gan nad oedd unrhyw fwynau gwerthfawr ynnddi. Roedd y rhan fwyaf o'r aur prin yn cael ei gloddio tua hanner milltir y tu hwnt i Raeadr Mawddach, ond prin yw'r dystiolaeth o'r cloddfeydd hyn sydd ar ôl heddiw.

Roedd ceuffyrdd fel y rhain yn cael eu hadeiladu i mewn i'r llethr, ar yr adegau prin pan oedd gwythïen y mwynau yn brigo ar yr wyneb, neu fel cloddfeydd hapfasnachol lle'r oeddent yn credu eu bod yn dilyn yr wythïen o ochr arall y dyffryn – roeddent yn amlwg yn anghywir y tro hwn!

Ond yr hyn sy'n ein synnu, yw'r ffaith y cai aur ei gloddio ar Afon Mawddach tan mil naw naw naw ar ôl sawl gweithred lwyddiannus ac aflwyddiannus.

Mae Aur Cymru yn hynod brin, ac o'r herwydd mae wedi bod yn fetel gemwaith drud iawn ers canrifoedd, sy'n dyddio'n ôl i ddyddiau'r teyrnasoedd Celtaidd pan oedd uchelwyr yn gwisgo torchau aur i ddangos eu tras a'u pŵer. Heddiw, mae'r teulu brenhinol, fel adlais o'r traddodiad hynafol hwnnw, yn gwisgo modrwyau priodas o aur pur Cymru.

Roedd gan y gweithfeydd powdwr gwn rychwant oes llawer byrrach o bedair blynedd yn unig. Mae nifer o resymau dros hyn; yn gyntaf, ni chafodd gobraith William Pritchard Morgan y gallent gyflenwi cloddfeydd eraill byth ei wireddu. Yn ail, mae'n ymddangos nad oedd y Rheolwr Gyfarwyddwr yn gallu gwneud ei waith yn iawn, ac yn drydydd, roedd defnyddiau ffrwydrol iawn, fel gelignit a TNT wedi cael eu dyfeisio'n ddiweddar, gan ddisodli'r powdwr du traddodiadol. Wrth edrych yn ôl, nid oedd mil wyth wyth saith yn flwyddyn dda i adeiladu melin powdwr gwn newydd!

Ond cyn i ni ffarwelio, gallai fod yn werth ystyried un ffaith fach hysbys am aur: byddai hyd yn oed y prosesau mwyaf effeithiol ar gyfer cael aur yn gadael hyd at chwarter o'r aur yn sownd yn y graig faluriedig. Os byddwch chi'n ychwanegu'r miliynau o dunelli o bridd, graean a cherrig sydd wedi erydu o'r gadwyn o fynyddoedd cyfagos dros filoedd o flynyddoedd a'u golchi i lawr yr afonydd mewn llifogydd tymhorol, at y graig faluriedig o'r cloddio, yna efallai y bydd llu o aur wedi'i gladdu yn llaid aber Afon Mawddach ger Abermaw!

Os byddwch yn parhau i ddilyn y llwybr, bydd pont droed yn mynd â chi'n ôl ar draws yr afon i'r maes parcio.

**Gallwch glywed mwy am hanes cyfoethog Coed y Brenin ar bedwar llwybr arall ym Mharc y Goedwig.**

Sgript Tyddyn Gwladys \_v1

Ariannwyd y llwybrau sain gan Ymddiriedolaeth y Graig (The Rock Trust), Elusen ym Meirionnydd, ac maent ar gael i'w lawrlwytho am ddim oddi ar wefan Comisiwn Coedwigaeth Cymru.

[Tua 140 eiliad]